Y Weinyddiaeth Amddiffyn Cynllun Iaith Gymraeg

1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn (MoD) wedi mabwysiadu'r egwyddor, wrth gynnal ei busnes cyhoeddus gyda'r cyhoedd yng Nghymru, y bydd yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal.

1.2 Mae'r Cynllun hwn yn nodi sut y bydd y Weinyddiaeth Amddiffyn yn gweinyddu'r egwyddor honno. Mae'r Cynllun yn gymwys i'r un graddau i'r Fyddin, y Llynges, y Llu Awyr, Pencadlys y Weinyddiaeth Amddiffyn a'i hasiantaethau a'i chronfeydd masnachu. Wrth lunio'r mesurau yn y Cynllun, mae'r Adran wedi rhoi sylw i'r hyn sy'n briodol o dan yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol.

1.3 Caiff y Cynllun hwn ei newid dim ond gyda chytundeb y Weinyddiaeth a Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

Y Weinyddiaeth Amddiffyn

1.4 Y Weinyddiaeth Amddiffyn yw Adran fwyaf y Wladwriaeth, ac mae'n cyflogi tua 106,000 o weithwyr sifil ar hyd a lled y byd a thua 210,000 o staff Lluoedd Arfog. Mae iddi ddwy swyddogaeth: ei swyddogaeth fel un o Adrannau'r Wladwriaeth, yn llunio polisi amddiffyn, yn cyfarwyddo gweithredu'r polisi hwnnw, ac yn cefnogi Gweinidogion wrth fod yr atebol i'r Senedd, ac mae'n ymgorffori'r pencadlys milwrol ar y lefel uchaf, yn rhoi cyngor milwrol i'r Llywodraeth ac yn darparu cyfarwyddyd strategol i lawr i'r Adrannau.

1.5 Diben y Weinyddiaeth Amddiffyn yw diffinio'r strategaeth a gwneud y gorau, o fewn yr adnoddau sydd wedi eu darparu, o'r gallu amddiffyn sy'n angenrheidiol:

- i atal unrhyw fygythiad i ryddid a dilysrwydd y Deyrnas Gyfunol a'r tiriogaethau sy'n ddibynnol arni, a'u hamddiffyn os bydd angen, gan gynnwys darparu cefnogaeth yn ôl yr angen i'r awdurdod sifil i atal terfysgaeth; ac

- i gyfrannu at hybu buddiannau diogelwch ehangach y DG, gan gynnwys gwarchod a gwella rhyddid a sefydliadau democrataidd, a hybu masnach rydd;

ac felly hybu heddwch a helpu gwneud y gorau o enw da a dylanwad y DG.

1.6 Mae gan y Weinyddiaeth Amddiffyn safleoedd niferus yng Nghymru, gyda nifer o unedau milwrol, adrannau canolog ac asiantaethau'n gweithio yng Nghymru neu'n cael eu cynrychioli yma. Fodd bynnag, cyfran fechan yn unig o'i gwaith sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru. Ymhlith yr unedau hynny y mae darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn brif swyddogaeth iddynt mae'r Swyddfa Dywydd (drwy gyfrwng Canolfan Dywydd Caerdydd), Swyddfa Cysylltiadau Cymunedol y Llu Awyr Brenhinol yn y Trallwng, ac amrywiol Swyddfeydd Gyrfaoedd y Lluoedd Arfog.

2. CYNLLUNIO A CHYFLWYNO GWASANAETH

Polisiau a mentrau newydd

2.1 Bydd y Weinyddiaeth Amddiffyn yn sicrhau, pan gaiff polisiau a mentrau newydd eu llunio sy'n golygu cyswllt rhwng yr Adran a'r cyhoedd, fod yr angen am ddarparu ar gyfer defnyddio'r Gymraeg yn cael ei hystyried yn gynnar. Fel hyn y bydd yr Adran yn symud yn nes at weithredu cydraddoldeb iaith wrth ddelio â'r cyhoedd ar bob cyfle.

2.2 Nod y Weinyddiaeth Amddiffyn yw y dylai polisiau a mentrau newydd fod yn gyson â'r Cynllun Iaith Gymraeg, gan asesu canlyniadau ieithyddol polisiau a mentrau newydd a chymhwyso mesurau a gynhwysir yn y Cynllun hwn wrth iddynt gael eu datblygu. Bydd y Weinyddiaeth

Amddiffyn yn ymgynghori â Bwrdd yr Iaith Gymraeg ymlaen llaw ynglí n â bwriadau a fydd yn effeithio ar y Cynllun neu ar gynlluniau sefydliadau eraill.

2.3 Caiff cynnwys Cynllun Iaith Gymraeg y Weinyddiaeth Amddiffyn gyhoeddusrwydd o fewn yr Adran, a darperir arweiniad drwy gyfrwng Cyfarwyddiadau blynyddol y Cyngor Amddiffyn a Chyfarwyddiadau Personél i'r holl bersonél sifil a milwrol sy'n ymwneud â chynllunio a datblygu polisi.

Cyflwyno gwasanaeth

2.4 Bydd darparu gwasanaeth gan y Weinyddiaeth Amddiffyn neu ei Hasiantaethau i'r cyhoedd yng Nghymru yn cael ei gyflwyno yn unol â'r egwyddorion sy'n cael eu gosod allan yn y Cynllun hwn yn rhannau 3-5 isod. Bydd dull pob adran yn dibynnu'n helaeth ar ei maint, graddau a natur ei chyswllt â'r cyhoedd a'r gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu. Fodd bynnag, gall adnoddau gael eu defnyddio'n hyblyg rhwng adrannau er mwyn bodloni ymrwymiadau'r Cynllun. Mae staff wedi cael gwybod am eu cyfrifoldebau mewn cysylltiad â Deddf yr Iaith Gymraeg, a chaiff arweiniad a chyfarwyddiadau eu darparu i'r rheiny a fydd yn darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru.

Safonau gwasanaeth

2.5 Bydd gwasanaethau a ddarperir yn y Gymraeg o safon gyfuwch â'r rheiny a ddarperir yn y Saesneg, yn unol ag egwyddorion y Cynllun hwn. Bydd y Weinyddiaeth Amddiffyn yn sicrhau bod systemau cyfrifiadurol newydd a'r rhai presennol a ddefnyddir gan y staff yn caniatau gwneud hynny. Bydd trefniadau i gadw llygad ar safonau darparu gwasanaethau a'u harolygu yn sicrhau cynnal safon y ddarpariaeth gwasanaeth, boed yn Gymraeg neu yn Saesneg, yn gyson drwy'r Weinyddiaeth Amddiffyn i gyd.

3. DELIO Â'R CYHOEDD SY'N SIARAD CYMRAEG

Gohebiaeth Ysgrifenedig

3.1 Bydd croeso i'r cyhoedd ohebu â'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn Gymraeg neu yn Saesneg. Bydd llythyron a dderbynnir yn y Gymraeg yn cael ateb ysgrifenedig yn y Gymraeg.

3.2 Bydd y targed Gwasanaeth yn Gyntaf (Siarter y Dinesydd gynt) o 20 o ddiwrnodau gweithio ar gyfer ateb yn gymwys i lythyron a dderbynnir yn y Gymraeg. Fel gyda chyfathrebu yn y Saesneg, anfonir ateb dros dro yn yr iaith briodol lle mae'r targed hwnnw'n annhebygol o gael ei gyrraedd.

3.3 Bydd unigolyn neu sefydliad sy'n mynegi ei fod yn well ganddo gynnal ei fusnes yn y Gymraeg yn cael gohebiaeth yn y dyfodol yn y Gymraeg. Bydd y Weinyddiaeth Amddiffyn yn cychwyn gohebiaeth yn y Gymraeg gydag unigolyn neu sefydliad y gwyddys ei bod yn well ganddo ddefnyddio'r Gymraeg. Mae hynny'n cynnwys gohebiaeth gyda'r rheiny sydd wedi siarad â'r Adran yn Gymraeg ar y teleffon neu mewn cyfarfod. Bydd staff yn cadw cofnod o bobl sydd wedi mynegi ei bod yn well ganddynt ddefnyddio'r Gymraeg, er mwyn galluogi'r Weinyddiaeth Amddiffyn i gyflawni'r ymrwymiad hwn.

3.4 Lle bydd llythyr a gyfeirir at nifer o unigolion neu gyrff yng Nghymru yn cynnwys rhai cyfeiriadau nad yw'r Saesneg, o bosibl, yn ddewis iaith iddynt, bydd y llythyr yn ddwyieithog, neu os bydd angen caiff ei anfon mewn fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Mae hynny'n cynnwys cylchlythyron a llythyron safonol.

3.5 Bydd y darpariaethau uchod ar gyfer gohebiaeth ysgrifenedig yn y Gymraeg yn gymwys i'r un graddau i ohebiaeth electronig. Bydd pob gohebiaeth a dderbynnir ar e-bost yn Gymraeg yn y dyfodol yn cael ei ateb yn Gymraeg.

Cyfathrebu ar y teleffon

3.6 Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn wedi sefydlu llinell gymorth Gymraeg fel gwasanaeth i'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg. Caiff pob galwad i'r llinell gymorth Gymraeg ei chynnal yn Gymraeg. Os bydd yn bosibl, caiff yr alwad ei throsglwyddo wedyn i siaradwr Cymraeg yn yr uned yn y Weinyddiaeth Amddiffyn sydd fwyaf abl i helpu gyda'r ymholiad. Os na fydd unrhyw siaradwyr Cymraeg yn y Weinyddiaeth Amddiffyn gyda'r arbenigedd angenrheidiol i ateb yr ymholiad yn uniongyrchol, gall y galwr ddewis a) parhau'r alwad yn Saesneg, b) ysgrifennu yn Gymraeg (a darperir ateb ysgrifenedig yn Gymraeg) neu c) adael neges gyda siaradwr Cymraeg ac ateb Cymraeg ysgrifenedig yn cael ei anfon.

Cyfarfodydd cyhoeddus

3.7 Pan fydd y cyhoedd yn mynychu cyfarfodydd cyhoeddus, cyflwyniadau neu ddigwyddiadau swyddogol eraill y Weinyddiaeth Amddiffyn, bydd trefnwyr digwyddiadau felly naill ai:

a) yn sicrhau bod gwasanaeth cyfieithu llawn neu wrth gefn ar gael ac yn rhoi cyhoeddusrwydd i'r ddarpariaeth; neu

b) yn gwahodd y rheiny sy'n bwriadu mynychu i roi gwybod i'r trefnydd os dymunant gyfrannu yn Gymraeg, er mwyn gallu trefnu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd.

3.8 Pan fydd unigolyn neu sefydliad sy'n mynychu cyfarfod cyhoeddus y Weinyddiaeth Amddiffyn yng Nghymru wedi rhoi gwybod ymlaen llaw, neu lle bydd cyhoeddusrwydd wedi ei roi i wasanaeth cyfieithu ar y pryd, bydd croeso i gyfraniadau yn Gymraeg. Lle bynnag y bydd yn bosibl, bydd siaradwyr Cymraeg wrth law i'w croesawu a delio ag unrhyw ymholiadau. Rhoir ystyriaeth hefyd i'r angen am gael siaradwyr Cymraeg i helpu gyda chyflwyniadau, ymweliadau ysgol, ffeiriau gyrfaoedd a digwyddiadau eraill pan fydd y Weinyddiaeth Amddiffyn yn dod i gysylltiad â'r cyhoedd.

3.9 Bydd defnydd ysgrifenedig sy'n gysylltiedig â chyfarfodydd cyhoeddus, cyflwyniadau a digwyddiadau swyddogol eraill yng Nghymru hefyd yn darparu ar gyfer anghenion siaradwyr Cymraeg lle gwyddys y bydd siaradwyr Cymraeg yn bresennol neu lle disgwylir i hynny ddigwydd, neu lle bydd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd wedi cael cyhoeddusrwydd.

Delio â'r cyhoedd mewn ffyrdd eraill

3.10 Os bydd aelod o'r cyhoedd yn dymuno siarad yn Gymraeg mewn cyfarfod preifat gydag un o swyddogion y Weinyddiaeth Amddiffyn neu Weinidog, bydd croeso iddo gyfrannu yn Gymraeg. Trefnir cyfleusterau addas i gyfieithu ar y pryd cyn belled â bod rybudd digonol wedi ei roi fod angen hynny. Bydd arweiniad i'r staff yn ei gwneud yn glir y dylid cynnig i siaradwyr Cymraeg yr hawl i siarad yn Gymraeg wrth drefnu cyfarfod preifat.

3.11 Mae'r ymrwymiad hwn yn cynnwys cyfweliadau archwilio diogelwch gyda chanolwyr, ond nid gyda'r rheiny sy'n cael eu harchwilio. Cynhwysir hefyd gyfweliadau eraill gyda'r cyhoedd, ond ni all yr ymrwymiad gael ei ymestyn i gyfweliadau recriwtio gydag ymgeiswyr am swyddi yn y Lluoedd Arfog neu swyddi sifil lle bydd angen bod yn rhugl yn Saesneg.

3.12 Lle caiff dulliau newydd o gyfathrebu â'r cyhoedd eu datblygu, er enghraifft, gan ddefnyddio cysylltiadau teleweledol, caiff gofynion Deddf yr Iaith Gymraeg eu hystyried.

4. WYNEB CYHOEDDUS YR ADRAN

Delwedd gorfforaethol

4.1 Bydd unedau a sefydliadau yng Nghymru yn cyfleu delwedd gorfforaethol ddwyieithog i'r cyhoedd. Bydd yr enw, y cyfeiriad, yr arwyddlun, manylion gweledol a gwybodaeth safonol arall yn ddwyieithog ar benawdau llythyron a negesau ffacs a ysgrifennir gan yr unedau hyn at y cyhoedd

yng Nghymru, ar gardiau busnes, bathodynnau adnabyddiaeth, cerbydau ac unrhyw nwyddau a defnyddiau perthnasol eraill.

Arwyddion a hysbysiadau

4.2 Bydd pob arwydd mewn mannau cyhoeddus yng Nghymru y mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn gyfrifol amdanynt naill ai'n ddwyieithog neu'n cynnwys fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Mae hyn yn cynnwys arwyddion allanol wrth y fynedfa i safleoedd ac ar eu ffiniau, ac arwyddion eraill mewn mannau lle caiff y cyhoedd fynediad rheolaidd.

4.3 Lle darperir arwyddion Cymraeg a Saesneg ar wahân, byddant yn gyfartal o ran ffurf, maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd. Bydd pob testun cymharol yn Gymraeg ac yn Saesneg ar arwyddion a hysbysiadau'n gyfartal o ran maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd.

4.4 Bydd yr holl arwyddion wrth fynedfeydd i safleoedd, a phob arwydd sy'n cael ei adnewyddu, yn cydymffurfio â'r egwyddorion hyn erbyn 31 Mawrth 1999. Bydd pob arwydd a hysbysiad arall yn cydymffurfio erbyn 31 Mawrth 2000.

Defnydd sy'n cael ei gyhoeddi (gan gynnwys ffurflenni)

4.5 Bydd y Weinyddiaeth Amddiffyn yn cyhoeddi amrywiaeth helaeth o gyhoeddiadau, ffurflenni a defnydd arall wedi ei argraffu i'r cyhoedd yn gyffredinol, ar gyfer recriwtio, i'r Senedd, ac at ddibenion penodol mwy arbenigol. Rhoir y flaenoriaeth i ddarparu yn Gymraeg y cyhoeddiadau a'r ffurflenni hynny sy'n anelu'n bennaf at y cyhoedd yn gyffredinol ac sy'n ymwneud yn benodol â Chymru, neu a fydd yn denu'r nifer mwyaf o'u darllenwyr o blith y cyhoedd sy'n siarad Cymraeg. Rhoir pwyslais priodol hefyd ar yr angen am ddarparu ystod ddigonol o wybodaeth yn Gymraeg, a phwysigrwydd cyflenwi defnydd i ysgolion Cymru yn y ddwy iaith. Er nad yw'n bosibl bod yn fanwl gywir oherwydd ystod y defnydd dan sylw, gwneir penderfyniadau ar sail wrthrychol a chyson. I sicrhau hynny, caiff cynigion meysydd perthnasol yn y Weinyddiaeth Amddiffyn o ran cyhoeddiadau eu harolygu'n rheolaidd yn ganolog, a'u diwygio os bydd angen. Bydd yr uned sy'n cadw llygad, yn ei thro, yn cyflwyno gwybodaeth am ddefnydd dwyieithog/Cymraeg i Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

4.6 Caiff defnydd sy'n cael ei gyfieithu i'r Gymraeg ei ddarparu'n ddwyieithog, neu os na fydd hynny'n bosibl am resymau ariannol neu ymarferol, mewn fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Pan gaiff fersiynau eu cynhyrchu ar wahân, bydd y ddwy fersiwn yr un mor hawdd i'r cyhoedd eu cael a byddant o'r un ansawdd. Lle bydd honno'n ddogfen newydd, cyhoeddir hi yr un pryd yng Nghymru a Lloegr pryd bynnag y bydd hynny'n bosibl; yn eithriadol, pan na ellir gwneud hynny, bydd y fersiwn Gymraeg neu ddwyieithog ar gael mor fuan â phosibl. Bydd arweiniad ysgrifenedig ar gynhyrchu a dylunio cyhoeddiadau dwyieithog ar gael i'r staff a'r contractwyr dan sylw.

4.7 Ni fydd pris fersiwn Gymraeg o ddogfen i'r cyhoedd yn fwy na phris y fersiwn Saesneg. Yn yr un modd, ni fydd pris gwerthu cyhoeddiad dwyieithog yn fwy na phris fersiwn mewn un iaith o'r un cyhoeddiad.

4.8 Mae defnydd nad yw o fewn cylch gwaith y Cynllun hwn yn cynnwys dogfennau technegol, deddfwriaeth a phapurau Seneddol, dogfennau'n anelu at grë p penodol lle disgwylir i'r galw am fersiwn Gymraeg fod yn isel iawn, a dogfennau maith nad ydynt, er ar gael i'r cyhoedd yn gyffredinol, yn ymwneud yn benodol â materion Cymreig ac sy'n annhebygol o ddenu diddordeb nac ymateb eang.

4.9 Lle na ellir cyfiawnhau cyfieithiad llawn o gyhoeddiadau i'r Gymraeg, ystyrir cyfieithu'r ddogfen yn rhannol, neu ar ffurf crynodeb, gan roi ystyriaeth i ddiddordeb tebygol y cyhoedd yn y defnydd dan sylw.

4.10 Bydd y Weinyddiaeth Amddiffyn yn ymgorffori tudalen Gymraeg fel rhan o'i safle ar y Rhyngrwyd. Bydd y tudalen hwnnw'n cynnwys cyfieithiadau o'r dogfennau hynny ar y prif safle sydd ar gael mewn fersiynau Cymraeg mewn copi caled. Cyfeiriad safle'r Weinyddiaeth Amddiffyn ar y Rhyngrwyd yw http://www.mod.uk

Hysbysiadau i'r wasg

4.11 Caiff hysbysiadau i'r wasg sy'n ymwneud â materion Cymreig a'u testun o ddiddordeb i'r cyfryngau Cymraeg eu darparu yn Gymraeg. Pan fydd yr amserlen yn atal rhyddhau hysbysiad i'r wasg yr un pryd yn Gymraeg ac yn Saesneg, caiff crynodeb ei ddarparu yn Gymraeg pan fydd yn bosibl, a chyfieithiad llawn o'r testun yn dilyn mor fuan â phosibl.

Cyhoeddusrwydd a hysbysebu

4.12 Wrth gynnal ymgyrchoedd hysbysebu a chyhoeddusrwydd yng Nghymru, bydd y Weinyddiaeth Amddiffyn yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal, ac yn darparu ar gyfer anghenion y cyhoedd sy'n siarad Cymraeg. Bydd hynny'n cynnwys ymgyrchoedd yn y cyfryngau i recriwtio ar gyfer y Lluoedd Arfog; posteri, byrddau a dulliau arddangos cyhoeddus eraill; hysbysebu ar y teledu; arddangosfeydd, ymweliadau ag ysgolion, ffeiriau gyrfaoedd a sioeau recriwtio yng Nghymru; arolygon; a llenyddiaeth cyhoeddusrwydd a recriwtio. Bydd amgueddfeydd yng Nghymru y mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn darparu cymorth ariannol iddynt hefyd yn cael eu hannog i ddarparu ar gyfer siaradwyr Cymraeg.

4.13 Bydd pob hysbysiad a hysbyseb gyhoeddus a swyddogol gan y Weinyddiaeth Amddiffyn a osodir yn benodol yng Nghymru, boed mewn papurau newydd, yn y cyfryngau darlledu Cymraeg neu sy'n cael eu harddangos ar hysbysfyrddau cyhoeddus neu rywle arall, i'w gweld yn ddwyieithog neu mewn fersiynau Cymraeg a Saesneg gyda'i gilydd. Mae'r egwyddor hon hefyd yn gymwys i hysbysebion recriwtio. Rhoir ystyriaeth hefyd i ddefnyddio'r cyfryngau Cymraeg lleol le bydd hynny'n briodol.

4.14 Pan ddarperir hysbysiadau a hysbysebion Cymraeg a Saesneg ar wahân, byddant yn gyfartal o ran ffurf, maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd. Bydd pob testun cymharol yn Gymraeg ac yn Saesneg mewn hysbysiadau neu hysbysebion yn gyfartal o ran maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd.

4.15 Bydd cyhoeddusrwydd a hysbysebu yng Nghymru, lle bydd hynny'n bosibl, yn ei gwneud yn glir fod croeso i'r cyhoedd ohebu â'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn Gymraeg. Bydd hynny'n cynnwys cyhoeddi'r rhif teleffon ar gyfer llinell gymorth y Weinyddiaeth Amddiffyn.

4.16 Bydd datganiad yn amlinellu'r gofynion hyn yn cael ei gynnwys yn Llawlyfr Personél y Weinyddiaeth Amddiffyn (Recriwtio) pan gaiff ei ddiweddaru.

5. GWEITHREDU AC AROLYGU'R CYNLLUN

Trefniadau gweinyddol

5.1 Mae Cynllun Iaith Gymraeg y Weinyddiaeth Amddiffyn [wedi] ei gymeradwyo gan Weinidogion. Bydd yr Is-Ysgrifennydd Parhaol yn gyfrifol am sicrhau bod y Weinyddiaeth Amddiffyn yn bodloni ei hymrwymiadau o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg fel y maent wedi eu gosod allan yn y Cynllun hwn. Caiff y Cynllun ei weithredu'n gyson drwy'r Lluoedd i gyd, yr Adran a'i hasiantaethau. Bydd rheolwyr llinell yn gyfrifol am weithredu'r Cynllun o fewn eu cylchoedd rheolaeth.

5.2 Mae'r holl staff o fewn y Weinyddiaeth Amddiffyn wedi cael gwybod am y Cynllun a sut y mae'n effeithio ar eu cylchoedd gwaith. Mae cyfarwyddiadau ac arweiniad ar weithredu'r camau sydd i'w gweld yn y cynllun wedi eu dosbarthu drwy'r Adran gyfan, a chânt eu cylchredeg bob blwyddyn.

5.3 Mae gwasanaethau cyfieithu ar gael i staff y Weinyddiaeth Amddiffyn. Bydd y Weinyddiaeth Amddiffyn yn sicrhau bod gan unrhyw gyfieithydd y bydd Adran yn cysylltu ag ef neu hi gymhwyster priodol ac y bydd yn gallu darparu gwasanaeth gwrthrychol o safon uchel.

Staffio

5.4 Bydd adrannau y bydd y Cynllun yn effeithio arnynt, naill ai drwy gyswllt uniongyrchol â'r cyhoedd yng Nghymru neu drwy ddarparu gwasanaeth perthnasol fel cyfieithu neu hyfforddiant, yn asesu i ba raddau y gall fod angen iddynt droi at siaradwyr Cymraeg sydd â'r medrau priodol er mwyn gweithredu'r Cynllun. Yn yr un modd, bydd rheolwyr yn nodi os yw'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol ar gyfer unrhyw swyddi yn eu hadrannau eu hunain.
5.5 Pan gaiff swyddi felly eu nodi, bydd lefel y gallu yn y Gymraeg sy'n angenrheidiol neu'n ddymunol yn cael ei phennu mewn disgrifiadau swyddi a hysbysebion recriwtio. Bydd rhaglen i gywiro unrhyw ddiffyg mewn gofyniad i allu siarad Cymraeg yn cael ei gweithredu pan gwyd y cyfle. Gellid gwneud hynny drwy recriwtio siaradwyr Cymraeg naill ai'n allanol neu o fewn yr Adran, neu drwy hyfforddi'r staff presennol neu staff newydd yn yr iaith, ond ni fwriedid i hynny gael unrhyw oblygiadau andwyol i'r staff presennol. Defnyddir y rhaglen i nodi blaenoriaethau a phethau sydd angen eu gwneud dros gyfnod hwy; i benderfynu anghenion hyfforddiant; ac i gadw llygad ar gynnydd tuag at allu cyflawni mesurau'r Cynllun yn llawn.

Hyfforddiant iaith

5.6 Bydd cyrsiau hyfforddiant yn y Gymraeg ar gael drwy'r Adran yn y dyfodol. Caiff staff wybod am y cyrsiau hyn yn yr arweiniad gyda'r Cynllun, drwy anogaeth eu rheolwyr llinell lle bydd hynny'n berthnasol, a thrwy daflenni hyfforddiant y cyrff hyfforddiant dan sylw.

5.7 Wrth ystyried a ddylid rhyddhau arian o'r gyllideb hyfforddiant ar gyfer staff sy'n dymuno dysgu Cymraeg neu loywi eu hiaith, bydd rheolwyr llinell yn pwyso a mesur buddiannau cyffredinol yr Adran; yr angen i gydymffurfio â Deddf yr Iaith Gymraeg; a buddiannau'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg. Lle penodir person nad yw ei allu yn y Gymraeg yn cwrdd ag anghenion y swydd, trefnir hyfforddiant i'r unigolyn gyda chefnogaeth yr Adran o fewn cyfnod rhesymol. Bydd y cyfnod wedi'i gytuno.

Gwasanaethau a ddarperir ar ran y Weinyddiaeth Amddiffyn gan drydydd parti

5.8 Nod y Weinyddiaeth Amddiffyn yw y dylai unrhyw gytundebau neu drefniadau newydd a wneir gyda thrydydd parti ac sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru fod yn gyson â thelerau'r Cynllun hwn. Bydd hynny'n cynnwys gwasanaethau sy'n cael eu gosod allan ar gontract.

5.9 Lle'n berthnasol, caiff gofynion o ran defnyddio'r Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru eu pennu mewn dogfennau tendro a chontractau sy'n eu dilyn. Bydd angen adroddiadau wedyn gan bob trydydd parti am eu perfformiad o'i gymharu â'r cynllun hwn at ddibenion arolygu.

5.10 Mae cyfarwyddiadau wedi eu rhoi i'r staff i gyd i godi ymwybyddiaeth o'r angen, wrth lunio manylion contractau, i sicrhau bod gwasanaethau i'r cyhoedd a ddarperir ar ran y Weinyddiaeth Amddiffyn yn bodloni'r ymrwymiadau yn y Cynllun hwn. Caiff Llawlyfr y Weinyddiaeth Amddiffyn ei ddiwygio wrth ei ddiweddaru nesaf.

Arolygu'r Cynllun

5.11 Bydd gweithredu'r Cynllun yn cael ei arolygu a'i adolygu'n ganolog gan yr Uned Bolisi Ranbarthol. Bydd hwnnw'n weithgarwch strwythuredig a pharhaus ac yn cynnwys:

- arolygu perfformiad y Weinyddiaeth Amddiffyn yn ôl y targedau parhaus sydd wedi eu gosod allan yn y Cynllun, fel yr amserau ymateb i ohebiaeth a'r trefniadau ar gyfer ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd;

- arolygu gweithredu mesurau penodol yn ôl yr amserlen yn adran 6, fel cyfieithu arwyddion a hysbysiadau a thudalen y Rhyngwyd;

- cytuno ac arolygu'r rhaglen barhaus o gyfieithu cyhoeddiadau;

- arolygu cydymffurfiant yr Adran, o ran darparu gwasanaethau i'r cyhoedd, ei pholisiau a'i threfniadau newydd, a gweithredu mesurau staffio a hyfforddi ganddi, yn erbyn yr ymrwymiadau sydd wedi eu gosod allan yn y Cynllun;

- ymchwilio i gwynion a gweithredu awgrymiadau a wneir i'r Adran.

5.12 Bydd arolwg blynyddol o berfformiad y Weinyddiaeth Amddiffyn yn ôl y Cynllun yn cael ei wneud gan yr Uned Bolisi Ranbarthol. Bydd angen i adrannau roi adroddiad am y ffordd y maent wedi cydymffurfio â'r ymrwymiadau sydd wedi eu cynnwys yn y Cynllun, a'r egwyddor o gydraddoldeb iaith fel sydd wedi ei bennu yn Neddf yr Iaith Gymraeg. Bydd yr arolwg yn asesu llwyddiannau'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn ôl yr amserlen ar gyfer mesurau unigol sydd wedi eu gosod allan yn y Cynllun ac yn erbyn targedau parhaus. Bydd hefyd yn archwilio natur a nifer unrhyw gwynion neu awgrymiadau a dderbynnid yn ymwneud â gwasanaethau'r Weinyddiaeth Amddiffyn i'r cyhoedd yng Nghymru.

5.13 Caiff canlyniadau'r arolwg hwn eu crynhoi, a chyhoeddir adroddiad blynyddol a gaiff ei gyflwyno i Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Bydd yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am berfformiad y Weinyddiaeth Amddiffyn yn ôl y safonau a'r targedau sydd wedi eu gosod allan yn y Cynllun hwn, a bydd yn rhoi eglurhad a manylion am unrhyw gamau cywiro lle na chyrhaeddir y safonau hynny.

Cwynion ac awgrymiadau

5.14 Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth o safon uchel i'r cyhoedd yng Nghymru. Bydd unrhyw gwynion yn cael eu trin o ddifrif ac yn gyfrinachol, er mwyn gallu gwella perfformiad yr Adran yn barhaus.

5.15 Bydd cwynion am ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru yn cael eu trin a'u harolygu yn unol â threfniadau cwynion safonol yr Adran. Dylid cyflwyno cwynion cychwynnol i'r uned neu'r sefydliad perthnasol o fewn y Weinyddiaeth Amddiffyn. Dylid anfon unrhyw gwynion pellach neu fwy cyffredinol am y Cynllun hwn i'r cyfeiriad canlynol:

Correspondence Unit, Ministry of Defence Main Building, Whitehall, Llundain SW1A 2HB

5.17 Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn croesawu awgrymiadau ar gyfer gwelliannau yn y Cynllun hwn. Caiff yr awgrymiadau i gyd eu cofnodi a'u hystyried yn gadarnhaol. Caiff y sawl sy'n cyflwyno'r awgrym ateb ysgrifenedig yn ei ddewis iaith. Bydd yr ateb hwnnw'n gosod allan pa gamau sydd wedi eu cymryd neu sydd i'w cymryd, neu eglurhad pam na fyddai unrhyw gamau'n briodol o dan yr amgylchiadau neu'n rhesymol ymarferol. Dylid cyfeirio awgrymiadau am y Cynllun at yr Uned Ohebiaeth yn y cyfeiriad uchod.

Rhoi cyhoeddusrwydd i'r Cynllun ac i'n gwasanaethau yn Gymraeg

5.18 Rhoir cyhoeddusrwydd i'r Cynllun hwn drwy gyfrwng hysbysiad i'r wasg, gwybodaeth ar y Rhyngrwyd a chyfryngau eraill fel sy'n briodol. Gellir defnyddio dulliau eraill hefyd i sicrhau bod y cyhoedd yn ymwybodol fod croeso iddynt ddefnyddio'r Gymraeg. Mae'r rheiny'n cynnwys:

nodi mewn unrhyw daflenni neu bosteri sy'n hysbysebu gwasanaethau'r Weinyddiaeth Amddiffyn i'r cyhoedd fod y gwasanaethau hynny ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg;

defnyddio bathodynnau "Iaith gwaith" gan staff sy'n siarad Cymraeg ac sydd mewn cysylltiad uniongyrchol â'r cyhoedd, neu sticeri ffenestr neu arwyddion desg tebyg ar gyfer mannau derbyn a swyddfeydd gyrfaoedd;

cynnwys ar ddefnydd ysgrifennu safonol y frawddeg "Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg/MoD welcomes correspondence in Welsh and English";

hysbysebu a cyhoeddi'r rhif ar gyfer llinell gymorth Gymraeg y Weinyddiaeth Amddiffyn.

5.19 Bydd copiau o'r Cynllun ar gael drwy wneud cais o CSE Llangennech, Llanelli, Sir Gaerfyrddin SA14 8YP (01554) 822533/400. Dylai'r cyhoedd ysgrifennu at yr Uned Ohebu yn y cyfeiriad uchod am gopi.

6. AMSERLEN A THARGEDAU PERFFORMIAD

Oni nodir yn wahanol isod, caiff yr ymrwymiadau yn y Cynllun eu gweithredu o ddyddiad cymeradwyo'r Cynllun.

Mesur		Targed / Amserlen
Cynllunio a chyflwyno gwasanaeth		
2.1-2	Polisiau a mentrau newydd	Ar unwaith
2.3-4	Arweiniad ar y Cynllun i'r staff i gyd	Cyn pen 2 fis ar ôl cymeradwyo'r Cynllun
2.4	Systemau cyfrifiadurol priodol	Ar unwaith
2.5	Darparu yn ôl yr un safonau beth bynnag fo'r iaith	Ar unwaith
Delio â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg		
3.1-4	Gohebiaeth ysgrifenedig	Ar unwaith. Targed Gwasanaeth yn Gyntaf o 20 diwrnod gweithio ar gyfer ateb i gael ei fodloni mewn 100% o achosion
3.5	Gohebiaeth electronig	O adeg sefydlu cyfeiriad e-bost y Weinyddiaeth. Targed Gwasanaeth yn Gyntaf o 20 diwrnod gweithio ar gyfer ateb i gael ei fodloni mewn 100% o achosion
3.6	Cyfathrebu ar y teleffon	Llinell gymorth i gael ei sefydlu erbyn 31 Rhagfyr 99.
3.7-9	Cyfarfodydd cyhoeddus	Ar unwaith. 100% o gyfarfodydd cyhoeddus i gydymffurfio â 3.7(a) neu (b)
3.10-11	Delio â'r cyhoedd mewn ffyrdd eraill	Ar unwaith. 100% o geisiadau i gael eu bodloni
Wyneb cyhoeddus yr Adran		
4.1	Delwedd gorfforaethol	Defnydd ysgrifennu i gydymffurfio cyn pen 3 mis ar ôl cymeradwyo'r Cynllun; nwyddau eraill cyn pen 6 mis. 100% ar gyfer y ddau darged
4.2-4	Arwyddion a hysbysiadau	Arwyddion newydd a rhai'n cael eu hadnewyddu, a phob arwydd wrth fynedfeydd i safleoedd, i gydymffurfio erbyn 30 Mehefin 99. Pob arwydd arall i gydymffurfio erbyn 30 Mehefin 00
4.5-6	Defnydd wedi ei gyhoeddi	Rhaglen barhaus. Cyhoeddiadau blaenoriaeth uchel erbyn 30 Medi 99. Cyhoeddiadau newydd wrth eu rhyddhau

4.7	Yr un pris i ddogfennau wedi eu cyfieithu	Ar unwaith
4.10	Tudalen rhyngrwyd	erbyn 31 Gorffennaf 99
4.11	Hysbysiadau i'r wasg	Ar unwaith
4.12	Ymgyrchoedd hysbysebu	Ar unwaith. Rhaglen barhaus ar gyfer llenyddiaeth recriwtio
4.13-4	Hysbysiadau a hysbysebion	Cyn pen 3 mis ar ôl cymeradwyo'r Cynllun, 100% i gydymffurfio
4.15	Cyhoeddi croesawu defnyddio'r Gymraeg	Cyn pen 3 mis ar ôl cymeradwyo'r Cynllun, 100% i gydymffurfio
4.16	Datganiad yn y llawlyfr Recriwtio	Cyhoeddi'r diwygiad cyn pen 2 fis ar ôl cymeradwyo'r Cynllun
Gweithredu ac arolygu'r Cynllun		
5.1-2	Trefniadau gweinyddol	Ar unwaith. Arweiniad i'r staff cyn pen 2 fis ar ôl cymeradwyo'r Cynllun
5.3	Gwasanaethau cyfieithu ar gael	Ar unwaith
5.4-5	Asesu anghenion staffio	Cwblhau cyn pen 6 mis ar ôl cymeradwyo'r Cynllun a'i ddiwygio bob 2 flynedd
5.5	Disgrifiadau swyddi	Ar unwaith
5.6	Cyrsiau hyfforddi ar gael	Hyfforddiant ar gael drwy'r Ysgol Ieithoedd ar unwaith; cyrsiau DMT ar gael o 31 Gorffennaf 99
5.9-10	Gwasanaethau'n cael eu contractio allan	Pob tender a chontract newydd i gydymffurfio o 30 Mehefin 99

5.11	Datganiad yn y llawlyfr Contractau	Pan gaiff y llawlyfr ei ddiwygio nesaf
5.13-14	Adolygu'r Cynllun	Adolygiad ac adroddiad bob blwyddyn
5.15-18	Cwynion ac awgrymiadau	Ar unwaith. 100% o gwynion ac awgrymiadau i gael eu hateb cyn pen 20 diwrnod
5.17	Arweiniad cwynion ar y rhyngrwyd yn Gymraeg	31 Gorffennaf 99
5.19	Cynllun ar safle Rhyngrwyd	Cyn pen mis ar ôl cymeradwyo'r Cynllun